

C A N, (10)

N E U,

*Mary*

# F A R W N A D

*Satire*  
Ar FARWOLAETH amryw o.

## FRODYR a CHWIORYDD.

A ymadawsant â'r Byd,

Ac a hunafant yn yr ARGWYDD.

*Simon his Book*  
Ynghyd â

CHANIADAU eraill.

*1796*

---

O Waith Mr. REES JONES, Ystrad-ffin.

---

*CAERFYRDDIN,*

Argraffwyd gan IOAN Ross yn *Heol-y-Prior,*  
gerllaw'r Eglwys.

*M, DCC, LXXIX.*

CASE

Mary Simon  
his Book 1796

Duv gadways  
was gadwy to go pro wondys  
Made in Seven foot wondys

Duv Gadways  
Duv Gadways

ZBDK



*Mary Y Simon his*  
**RHAGYMA DRODD.**

*Book 5796.*

*Anwyl DDARLLENYDD,*

**W**RTH ddarllen yr Hymnau a'r Can-  
 iadau canlynol o waith cyfaill mor  
 ffyddlon, a christion mor ddisglair, a gwrd-  
 wr mor haelionus, a phen teulu cariadus,  
 ac aelod o'r eglwys, yn awr yn y nef.  
 — Nid allai lai na bwrw fy' hatking i'r  
 dryforfa, drwy eu cyflwyno i ti yn y modd  
 goreu ag y medrwyf. Ei brydyddiaeth mi a  
 wn nad ydyw yn reolaidd, ond y mae corph  
 y matterion yn sylweddol; ag am hynny  
 darfu i ni eu danfon i'w hatgraphu am fy  
 mod i yn credu gwnae'r Arglwydd hwy yn  
 tendith i etifeddon sylwedd, yn enwedig y  
 rhai ag oedd yn adnabyddus a ospryd, ac a  
 thymmer yr Awdwr duwiol, yr hwn oedd  
 a'i amcan yn gywir yn ei fywyd a'i athraw-  
 iaeth, i dderchafu Mab Duw, ac i dynnu i  
 lawr ucheldrem dyn. — Ddarlenydd anwyl  
 nid oes un ffordd esmwythach i ti fyned i'r  
 nefoedd nag i eraill: Ammodau heddwch,

iv. R H A G Y M A D R O D D.

ydynt yr un i bawb, sef, gwerthu'r cwbl  
cyn cael y PERL o uchel bris!

Dyma ddymuniad fy enaid; sef, Iach-  
awdwriaeth y rhai oll ag y ddelo'r llyfran  
bychan hwn yw dwylaw, gan ddymuno ar  
Rhoddwr pob daioni ei wneuthur yn fod-  
dion i gyflawnu mewn rhyw fesur yr hyn sydd  
ddiffygol ar eu heneidiau, pa un ai caredig-  
ion, ai gelynion, gwrandawyr, ai llafurwyr  
fyddont: Yr hyn, os Duw a'i caniatta,  
eyfrifaf yn fraint i gyfenwi fy hun,

Eich uffud Wasanaethwr, a'cb

Ewyllysfrwr da,

Dafydd Jones

Dafydd Jones.

F A R W.

## FARWNAD, &c.

- 1 **M**A E gennyf geraint i' dd eu cofio,  
Y Darfu y'nt oddi yma ymado,  
A'u coffadwriaeth sy' fendigaid,  
Rifir hwynt ymhllith ffyddloniaid,  
Maent hwy'rwan wedi gor phwys,  
Oddi wrth eu llafur ym Mharadwys  
Maent heb gur yno'n bur, yn canu yn eu gynnaū,  
Ar eu pennau mae coranau,  
Ac yn eu dwylaw, aur delynau.
- 2 Y gyntaf gaf ei henwi yma,  
Yw'r wraig o *Fæs-caerbug*, sef, *Sara*;  
'Rhon dd<sup>h</sup>angodd ffwrdd oddi wrthym;  
'Nol cael ei chymdeithas ronynt,  
Hi gadd ei syimmud yn ddisymmwth,  
Trwy gur y colic, clwy' anesmwyth,  
Galwyd hi i wledda fry yn nhŷ ei Phriod,  
Lle na'does un rhyw boen, na nychdod,  
Nag un gelyn i roi dyrnod.
- 3 Ofnog oedd, a thân gymmylau,  
Fynycha tra fu ar ei siwrnau,  
Glynu wnaeth hi, yn dra diwyd,  
Wrth y gair yn nyddiau ei bywyd:  
Yn hyn'roedd hi yn esampl hynod,  
I'r fawl sy'n dewis Crist yn Briod;

Nid fel rhai, er eu gwae, a fyddai esgeulus,  
 Glynodd wrtho ef yn ddilys,  
 Nes myn'd atto i Baradwys.

- 4 Os tybia rhai 'mod i'n rhyfgyu,  
 Son am *Sara* fry yn canu,  
 Dymunaf ar y cyfryw gofio,  
 Fel mae'r ysgrythur lân yn tystio,  
 Fod y feintiau, trwy'r Diddanydd,  
 Mewn gwir undeb bawb â'u gilydd,  
 Byw mewn hedd, tu yma'r bedd, yr unwedd â brodyr,  
 Yr hyn yw'r arwydd mwya eglur,  
 O'n mabwysiad medd y ysgrythur.
- 5 Yr ail a gymraf i'm ystyriaeth,  
 Yw mrawd *Ifan* bannwr diffaith ;  
 Diffaith oedd o ran ei rodiad,  
 Etto profodd ei fabw'siad ;  
 Yn aml iawn y ca'dd ei lithro,  
 Gan gyfeddach cas a'i gwympo,  
 Ond gras Duw, rhyfedd yw, a'i codai'n fyw i fynu !  
 Diau fod 'e heddyw'n canu,  
 Am faddeuant, mawl i'r Iesu.
- 6 Llawer gwaith y byddai *Ifan*,  
 O flaen gorsedd gras'n griddfan,  
 Felly'r Arglwydd o'i dosturi,  
 A wrandawai ar ei weddi ;  
 Ac wrth brofi blas maddeuant,  
 A llef uchel 'fe roi foliant,  
 Codai ei ben, tu a'r nen, yn llawen am hynny,  
 Ninnau'n canmol Duw, gan gredus  
 Fod ei bechod wedi ei gladdu.
- 7 Crefydd cnawd fe'i galwai yn lledritb,  
 Ac ar bob twyll cyhoeddai felldith,  
 Er ei feiau, yr oedd *Ifan*  
 Yn gwir garu crefydd gyfan !  
 Gan yr Arglwydd fe ga's ddoniau ;  
 I ddosparthu pethau'n olau,  
 Dweud y gwir, wnaeth e'n glir, wrth amryw wyr  
 Gwahaniaethu rhwng y gras a'r hunan, [trwistan,  
 Triniau'n dra-doeth enaid. *Ifan*.

- 8 Y drydydd gaf si enwi' rwan,  
 Yw gwraig Williams, *Llewlyn y berllan*,  
 Enaid duwiol oedd, a diwair,  
 Dawel, ifel, addswyn hygar,  
 Fe'i galwyd hi'r diwygiad cynta',  
 Fe'i symmudwyd o'r ddiwetha';  
 Gwedi cael, yn ddifael, wir adnabyddiaeth,  
 O'r Iesu er ei iachawdwriaeth,  
 A haeddiant gwaed y dwysol aberth.
- 9 Cristion prydferth yn ei buchedd,  
 Ac yn meddu mawr amynedd,  
 Treuliodd hithau ei dyddiau allan,  
 Yn ddiarg'odd yn *Llewlyn y berllan*,  
 Hi gadd lawer o flinderau,  
 Yn ei dydd oddi wrth rwygiadau; [mlaena,  
 Ymraniad fu, a geiriau du, rhwng rhai oedd yn ym  
 Ynghylch pyngciau, ond yn benna',  
 Sy'n o honynyt fyddai fwya!
- 10 P'odd bynnag mi auturias dd'wedyd,  
 Iddi lannio i dir y bywyd,  
 Gwedi gorphen ar ei theithiau,  
 Gwedi myned trwy borth angau,  
 Wedi rhoi'r arfogaeth heibio,  
 Yn awr â phalmwydd yn ei dwylo,  
 Ym mhlith y llu, dedwydd fry, yn canu heb trallos  
 A phob gelyn wedi ei orfod,  
 Dedwydd fan! yngŵydd ei phriod.
- 11 Tim. y gôf ga's nesa ei wyllo  
 'Fyn'd oddi yma adre' i drigo,  
 Ynte 'n foreu a rodd ffarwel,  
 A groesawodd angau'n dawel,  
 Yr oedd ei Brynwr wedi ei freinio  
 Ag yspryd canu a gweddio,  
 Llenwi ei le yn ddible, byddai efe beunydd,  
 Tim. 'madawodd, cym'rwn rybuod,  
 Sawl sy'n barod fydd yn ddedwydd.
- 12 Pa'm hiraethwn mor ariafed  
 Ar ol brawd ag oedd yn aeddfed,

Fe aeth yn llawen byddwn foddlon  
 I'w etifeddiaeth draw i'r afon :  
 Y mae'r IESU 'n ewyllyfio,  
 Dwyn ei briodas-ferch atto,  
 O fewn i'r ne', hyfryd le, ymhllith yr hên seintiau,  
 Lle mae llawer o drigfannau,  
 Wedi eu trefnu er ys dyddiau.

13 Am ei Seilfaen, gwyr 'r Arglwydd,  
 I'n gael ynddo wir foddlonrwydd,  
 Am hyn rho'wn heibio ofer siarad,  
 Fe ddaw dydd yr Adgyfodiad:  
 Pan udgano yr archangel,  
 Gwelir pwy fydd Duw 'n ei arddel,  
 Dewch ymla'n seintiau glan, gannasoch eich gynau,  
 Yngwaed yr IESU, e'r ystyddiau  
 A maddeuwyd eich holl feiau.

14 Edward, gwas oedd yn Pwllpriddog,  
 Dros ychydig fu'n flodeuog,  
 Ac oddi yno bu fe farw,  
 Barnu 'n dirion 'ry'm am hwnnw,  
 Iddo gael y gwir dangnfydd,  
 A bod ganddo gywir grefydd,  
 Ac fe fu, yma'n hi, yn tyfriolaethu,  
 Fod mwy bleffer wrth 'difaru,  
 Nag y cadd e' erioed wrth bechu.

15 Ni cha'dd amser yma i heppian,  
 Ne's ei gym'ryd o'r byd allan,  
 Mewn dychryn 'roedd e'n llawenychu,  
 Pan daeth cerbyd nef yw gyrchu,  
 A'i gariad cyntaf o'r un edryd,  
 A phlant Sion yn eu mhebyd,  
 Gwaeddi 'n hŷ, dyma ei gri, Gogoniant i'r IESU  
 'Fe roes ei hun yn Iawn i'm mhrynu  
 Ac o usfern fy 'ngwaredu.

16 Fe ga'dd fyn'd yr amser gorau,  
 Megis gwryrf mewn sandalau,  
 Cyn i chwant y cnaud ei ddenu,  
 Nag â gwragedd ei halogi,

Ffôdd foreu-gwaith heb un cwmniwl,  
 Na chael yn ei gnawd un swmbwl,  
 Dedwydd awr, foreu wawr, darfu 'nawr ei ofnau  
 Ninnau wrth y pryd-dodynau,  
 Yn methu canu gair o'n genau.

- 17 Merch fechan ffôdd y ffwrdd fel yntau,  
 O'r *Digoed y dd*er ys dyddiau,  
 'R hon ni hudwyd â drygioni  
 Mwy nâ'r pererinion rhei'ny,  
 Byw ynghariad Iesu beunydd,  
 Fel y dywed Ioan Difeinydd,  
 Rhai 'n ddilys, ddaeth ar frys, o'r cyfudd mawr yna,  
 Yn gwisgo gynau am y gwynna'  
 Wedi ei cannau fel yr eira.

- 18 Hen a ffaeth oedd hon, ond ieuangc,  
 Pan y ca'dd oddi yma ddiangc,  
 Cym'rodd aden ar foreu-ddydd,  
 Cyn cael teimlo gwres canol-ddydd,  
 Pryd mae llawer yn lluddiedig,  
 Gan y gwres a'r gwaith blinedig  
 Ar bob pryd, tra bo'r byd, rhwng oñid gair yma:  
 Dedwydd rai a ga'dd ddiangfa,  
 I'r dragwyddol wir orphwysfa.

- 19 Mae'r ddwy chwaer fechan yn cyd-orwedd  
 'Nawr yn heddwch Duw'r gwirionedd,  
 Catherine ydoedd enw'r gynta',  
 Ac Elizabeth ddiwetha';  
 Y gynta dwy flwydd oedd ei hoedran,  
 Yr ail yn saith o flwyddau cyfain;  
 Heb ddim hwy oedi yn mwy, dygwyd hwy'n ddi-  
 Draw i blith y pur gwyryfon, [ogel]  
 'Dorf aneirif delynorion!

- 20 Yr hyn yma ag a soniais,  
 Trwy dystiolaeth a dderbynais,  
 Bellach mi adawaf iddynt,  
 Nes y caffwyf fyned attynt,  
 Nid oes ond ychydig dyddiau,  
 'Rwy'n addfedu er ystyddiau!

'Fyn'd i'r tir, cyn b'o hir, trwy addewid wir o diaeth,  
Ge's gan Dduw yn etifeddiaeth,  
Ac y feliodd trwy dystiolaeth.

21 Cyn gwel'd llawer sabbath bellach,  
F'allai gallai fod yn holl-iach;  
Wedi gorphen ar fy siwrnau,  
Caf yn gyffon gân salmau,  
Gydâ'r saint tu hwnt i affwydd,  
Mi gaf orphwys yn yr Arglwydd :  
Yn ddi-dôr, gydâ'r gôr, ger bron fy Ior yno ;  
Mae fy nghalon yn dymuno,  
A'r gân dragwyddol i gyd-seinio.

22 Cyn gorphenwyf bump saith flwyddyn,  
Mi gaf fyned at y weris,  
Heb filwrio o hynny allan,  
O flynyddau, ugain cyfan :  
Fe â ymaith amryw etto,  
I Baradwys i orphwyso,  
Lle maent hwy seintiau mwy, heb arnynt glwy'n  
Gwedi'r concwest, mawl i'r Iesu, [canu ;  
Yn dragwyddol orfoleddu.

## H . Y . M . N .

1 P O B enaid llwythog clwyfus trist,  
Sy'n 'mofyn Crist o'i galon,  
Mewn chwêrw daith, anialwch inaith,  
Yn ymdaith tu a Sion.

2 Fel Iyrael lân, dere yn dy flaen,  
Trwy'r dŵr a'r tân gan gredus;  
Mae'th Dduw o'th blaidd wrth angenrhaid,  
O paid â digaloni.

3 Ni ddoi di i 'maes o'th bechod cas,  
Oni chai di ras i'th helpu ;  
I roi dy bwys a'r hyder dwys,  
I orphwys ar yr Iesu.

- 4 Oh! pwy fel hon a'i gwedd mor llon,  
     Yn pwysfo ar fron ei phriod;  
     A'i serch i gyd a'i chyflawn fryd,  
         Ar bethau'r byd diddarfod.
- 5 Mae f'enaid gwael, oh! Arglwydd hael,  
     A chlwyf heb gael ei weled;  
     Rho Grist i'm rhan a thyn f'r lan,  
         Sy'n ddwrfwn dan gaethiwed.

### Golwg Ffydd.

- 1 D A Wdiwedd ar rhyfela, cyn bo hir, cyn bo hir,  
     Trwy waed yr Oen gorchfyga, cyn b'o hir,  
     Er amled yw rhifedi,  
         Gelynion sy' i mi heddy',  
     Ca'i gwe'l hwy gid yn trengu, cyn b'o hir, cyn b'o hir,  
     Heb godi mwy i'm drygu, cyn b'o hir.
- 2 Fe dderfydd pob gofidiau, &c. &c.  
     Caf fyn'd i ben fy siwrnau, &c.  
     Er im' gael fy ngernodio,  
         Tra byddwyf yma yn teithio,  
     Daw dydd na's caf fy mlino, &c. &c.  
     'Nol i mi gael fy mhuro, &c.
- 3 Fe egir yr Iorddonen, &c. &c.  
     Caf fyned trwyddi'n llawen, &c.  
     Caf yfgwyd ymaith bechod,  
         Fy amhuredu a phob sorod,  
         i'm llwyr iachau o'm nychdod, &c. &c.  
     Byw byth ar wedd fy Mhriod, &c.
- 4 Pryd hyn, ffarwel drallodion, &c. &c.  
     Fe'm codir uwch gelynion, &c.  
     Er teithio dyffryn Baca,  
         Ac yfea dyfroedd Mara,  
     Caf fyn'd i'r wir orphwysfa, &c. &c.  
         I ganu Haleluiah, &c.
- 5 Fy ffydd a droir yn olwg, &c. &c.  
     Caf wel'd yr Oen yn amlwg, &c.

- Fe lychir fy holl ddagrau,  
Tryngalar yn ganiadau,  
Caf ganu ar nefol dannau, &c. &c.  
Teilwng yw'r Oen fy'n dioddau, &c.
- 6 Fe dderfydd pob rhag-farnau, &c. &c.  
Sy weithiau rhwng y scintiau, &c. &c.  
Ynghyd â'r gwag ddadleuon,  
Sydd yma rhwng criff'nogion,  
Fe gesglir y duwiolion, &c. &c.  
Cyd-ganant sry yn Sion, &c.
- 7 Er gorfod yma ymado, &c. &c.  
Daw'r scintiau ynglyd yn gryno, &c.  
Dewch stod yr dewch yn llawen,  
Cawn gwredd tu draw'r lorddonen,  
Yn ddisglair fel yr haul-wen, &c. &c.,  
Heb 'madael byth drachefn, &c.
- 8 Bydd lawen f'enaid gwirion, &c. &c.  
Ca'i fod ar fynydd Sion, &c.  
Tragywyddol gariad fy' yno,  
Fel afon fawr yn llifo,  
Ar fyrr caf nofiaid ynddo, &c. &c.  
'Mhlith miloedd yn disgleirio, &c.
- 9 Caf dreulio tragywyddoldeb, &c. &c.  
Ynghyd â'r saint mewn undeb, &c.  
Ni wela'i ond fy ngharo,  
Lle'r wi'n myn'd i breswylio,  
Myrddiynau yn cyd-gordio, &c. &c.  
Gwynfyd na bawn ni yno, &c.
- 10 Ymbell y dorf aneini, &c. &c.  
Caf ganu byth heb dewi, &c.  
Ynghyd â'r hen dduwiolion,  
Fu gynt hyd angau 'n ffyddlon,  
Trwy ganol pob trallodion, &c. &c.  
Sy'n hardd eu gynau gwynion, &c.
- 11 Caf hedeg uwchi ffur safen, &c. &c.  
Dan ganu clod yn llawen, &c.  
Corph tebyg i'm Hanwylyd,  
Ag anaid hwylys hefyd,

- Ga'i foli'n nhir y bywyd, &c. &c.  
 Dros trag'wyddoldeb hyfryd, &c.
- 12 Caf yno fyth ryfeddu, &c. &c.  
 Ymhli'h ryw hardd gwmpeini, &c.  
     Y cariad mawr tragywyddol,  
     Gymmhelodd gynt sy ethol,  
 I fod yn un o'i bobl, &c. &c.  
 Caf yno byth ei ganmol, &c.
- 13 Wrth wel'd y bore'n dysod, &c. &c.  
 Caf gwardd â'm hanwyl Briod, &c.  
     Mae nghalon yn dieithro,  
     A'r byd ac oll sydd yn tho;  
 Ac arnaf chwant ymado, &c. &c.  
 Fy aeddfedu fyned atto, &c.
- 14 Amen, oh! Iesu tyred, &c. &c.  
 Myn wel'd o lafur dy enaid, &c.  
     Aeddfeda dy braidd bychan,  
     A'th ddefaid dwg i'th gorlan,  
 Sydd etto 'n aros allan, &c. &c.  
 Oh! Arglwydd tyred weithian, &c.

### Rhai Geiriau ar ANGAU:

- 1 **A**NGAU du, Beth ddarfu it' 'rwan,  
 Pam y darfy grym dy ofan?  
 Dy golyn ga'dd ei gym'ryd ymaith,  
 Ynghyd âg aeth yr ail farwolaeth:  
 Bellach y mae'r plant yn rhyddion,  
 Oddi wrth y ddeddf a'i holl felldithion;  
 Deuwch frôdryr dryngwn rhagom,  
 Bywyd sy' ac angau'n eiddom,  
 Er pan farw'r Iesu drosom.
- 2 Angau bach, myfi dy bia,  
 'Rwi'n gwel'd trwy 'spien-ddrych o'r gwycha;  
 A phan bo'n faich y ceiliog rhedyn,  
 Yn dy wyneb di caf chwérthin,

B

Am

Am fod dy gyflog wedi 'i dalu,  
 Drosof finnau gan fy Iesu;  
 Dyma pam, (heb wneud eam â thi) rwy'n llawen,  
 Ni chei'n 'scybydd fod fel *Cision*,  
 Porthwys wyt i'm trost i *Sion*.

- 3 Pan bwy'n meddwl am'r Iorddonen,  
 Mae fy enaid yn dra llawen,  
 Can's sicr wyf y caf yn sylfaen,  
 Dan fy nhraed yr hardd deuddeg faen:  
 Rhai gan *Israel* a osodwyd,  
 I gyluro plant y bywyd,  
 Yn y fan, cyn cael glann, lle caetha' allan,  
 Y trefnwyd i fforddolion *Canaan*,  
 Gado'n ol eu natur egwan.
- 4 Athrawiaeth'r Apostolion hynod,  
 Yw'r deuddeg sylfaen soniwyd uchod,  
 Buddiol fydd i'n bawb yn angau,  
 Fod eu † geiriau i'n calonnau, † *Jos. 8. 32.*  
 Pa beth, ond credu yn *yr* Iesu,  
 Ddeil pryd hynny'n pennau i fynu?  
 Dyna'r dydd y bydd prudd i bob pen uchel;  
 A'r balch ei feddwl 'nawr fydd isel,  
 Os heb arch y gorfydd 'madael!
- 5 (Miloedd aeth ar bwys y meini  
 Hyn) trwy angau heb eu boddi,  
 O blant *Israel* neb ni wlychad,  
 Yn 'r Iorddonen ond y 'ffeiriad;  
 A phrin y cafodd gwadnau'rhei'ny,  
 Gan y dyfroedd yno eu gwlychu;  
 Sych fe aeth, pob mammaeth, y plant, a'r feichiog,  
 'Nol ni safodd ewin forchog,  
 Heb fyn'd trwyddi 'i gyd yn arfog.
- 6 Ein Harch-offeiriad mawr a wlychodd,  
 Ei draed yn angau, dyfnion a'i ddyfro'dd;  
 Trwyddo ef 'ry'm ninnau'n disgwyl,  
 Helaeth fyned yn ddi-drwbl;  
 Credu 'ry'm y try'r Iorddonen,  
 Yn ei hol fel drach ei chefn,

*Israeliaid ânt yn droed-sych trwyddi,  
Am wlychu gwadnau traed yr Iesu,  
A'i fod â'i arch yn sefyll ynthi.*

7 *Pan bo'r ef:au'n cael ei chwynnu,  
Bydd rhincian dannedd mawr a chwyrnu,  
Yno dywedant yn ddig'wilydd,  
" Ei fod e'n dysgu yn eu heolydd ?"  
Ond er bod fel brigau'r lawrydd,  
Ac â'n pennau cewch a'r cedrwydd ;  
Heb ail eni, oddi fry, ni's gallwn ni syned,  
I'r bywyd mewn trwy'r porth gan gaethed,  
Rhaid cael Iesu Crist i'n gwaredd.*

8 *Nid oes yn 'r Iorddonen ddigon  
O ddw'r i foddi 'nawr un Cristion,  
Y fawl sy â'i bechod heb ei faddeu,  
Afon ddofn iawn fydd angau ;  
Ni chyfrifir neb yn deilwng,  
Ond y ddelo trwy'r porth cyfwng,  
Drws yngbau fydd i'r gau broffeswyr gweigion,  
Er eu bob hwy'n rhyw rhai mawrion,  
'Nawr (i'w tyb) ymhlið Crist'nogion.*

9 *Fy enaid boed dan wlith dy fendith,  
Tra bw'i 'n teithio byd yn ddilyth ;  
Ac na oddef i'm yn heppell,  
Fyw oddi wrth dy sanctaidd babell ;  
I'm harwain, gad y'm gael y cwmmwl  
Niwl a thân i'm twysfön fanwl ;  
Gyd â thi, gad i mi, deithio'n hy hyfryd,  
Yr Urim glân a'r Thummim hefyd,  
Fyddo'n waftad fy ngyfrwyddyd.*

### *At y CYMRY.*

**C**YMR<sup>Y</sup> rheittach gwisgo sachlen,  
Yn lle gwagedd am eich cefn,  
O herwydd pechod sydd yn gwaeddi,  
Ar yr Arglwydd eich difrodi,

- Oddi eithr i chwi oll i wella,  
 A phawb i droi oddi wrth ddiffiethdra,  
 Diau daw, maes o law, oddi draw gleddau,  
 I'ch torri ymaith gangau a gwreiddau,  
 A dwyn dieithriaid i'ch anneddu.
- 2 Y mae'r gwledydd oll yn cwyno,  
 Ag mae'r ddaear yn och'neidio,  
 Wrth wel'd ein buchedd ni mor aflan,  
 Rhai y'm o fewn i gaerau'r winllan ;  
 Y mae'n balchder a'n anlladrwydd,  
 Wedi'n dwyn i'r fath enbydrwydd,  
 Y deyrnas hon, sydd ymron, fel greulon *Sodoma*,  
 Ag mae'n siwr o gael ei difa,  
 Os rhybyddion prudd ni thyccia.
- 3 'R efengyl sydd yn ei sandalau,  
 O fewn i'n gwlad er ys blynnyddau,  
 Ar Dduw deisfaf na symmuder,  
 Ein ganhwyllbren o dir *Lloegr* ;  
 Er dyddiau *Latimer a Ridley*,  
 Y mae ym *Mbrydain* fawr yn oleu,  
 Y mae'n llewyrchu, *Yngbymru* 'rwan,  
 Does argoel 'r â oddi yma allan,  
 Nes aeddfedu rhai i'r cryminan.
- 4 Canhwyllau goleu fu yn llosgi,  
 'R oes diwedda yma *Yngbymru*,  
 Un siccer *Pritchard* yn *Llan'ddfry*,  
 Hwn, er marw, sy'n llafaru.  
 Ac un *Morgan Llwyd*, o *Wynedd*,  
 'R hwn fu'n llosgi'n danbaid rhyfedd,  
 Amryw fu, o'r un llu, 'n llafurio'n helaeth,  
 Yn y gair a'r wir athrawiaeth,  
 Er dwyn dynion i wybodaeth.
- 5 Llafuriodd *Whitefield* gyd â'r *Saeson*,  
 Gyd â'r *Scottiaid* a gwlad *Gwerddon*,  
 Bu hwn yn amlach ei siwrneion,  
 Nâ neb er dyddiau'r *Apostolion* :  
 Mae gennym eto *Hil a Willis*,  
 Rowland ewog yn yr ynys;

A llawer cloch, yn gwaeddi'n groch, am edifeirwch,  
**Am** hynny trowch a gwir ddychwelwch,  
**Rhag** ar ein gwlad ddôd anedwyddwch.

**6** Rhyfedd syrthio i ni goelbren,  
 A'n geni lle mae'r Esengyl lawen,  
 Cyfystal gall'sem ym mhllith *Twrcaid*,  
 Gael ein geni, neu'n ymhllith *Indiaid*;  
 Lle nad oes dim son am Iesu,  
 Nac athraw cywir i bregethu,  
 Ond lle mae'r brophwyd gau, 'n hudo eneidiau,  
 Ag addoliad pob gau dduwiau,  
 Haul a'r lloer a'r holl blanedau.

**7** Gan i ni dderbyn y fath freintiau,  
 Pa fath ddynion ddylem ninnau  
 Fod mewn sanctaidd ymarweddriad,  
 Tra yma bo'm mewn byd o brofiad?  
 Nâ *Cborazin* na *Bethsaida*,  
 Obru yn usfern byddwn ifa,  
 Mwy ein gwae, fyddwn rai, gawsom feddiannu,  
 Y breintiau mawrion y'm ni'n fathru;  
 Cym'rwn rybudd bawb *Yngbymru*.

**8** Cawsom newydd draw o'r *India*,  
 O le a elwir tref *Calcutta*,  
 Ddanfon gwasgfa fawr o newyn,  
 Arnynt gan y bythol Frenin,  
 Wrth a ddywed yr hanesydd,  
 'R oedd athrist olwg yn'r heolydd,  
 \*Celanedd yno oedd cyn amled,  
 Deugain corph mewn ugain llathed,  
 Dyma'r drych oedd amla i'w weled.

\* celain

**9** Deg a thrugain o oed Iesu,  
 A mil faith cant y bu hynny,  
 O fis Ebrill drwy Orphenna,  
 Bu e'n dyft o'r galed wasgfa  
 Gan y newyn. Dau wr tauog,  
 Yn dwyn y bore, ugain penglog,  
 Oedd ar lawr, gwael eu gwawr, heb eu ysglifedd,  
 Gan y cwn a chan fwytfilod.  
 O'r hyn oedd weddill o'r dihirod.

- 10 Gwelodd yno ddyion hefyd,  
 Eu bol a'ë cefnau yn cyd-gwrthyd,  
 Y newyn ydoedd wedi eu crymmu,  
**A'r** wangc o fewn oedd wedi eu nychu;  
**Gan** y llefain a'r holl ochain,  
**Yr** oedd yno dref aflawen:  
 Yn plethu i gyd, eu dwylaw nghyd, ac yn dymuno  
**I** angau'n rhyw fodd eu symmudo,  
 O'r byd lle'r oeddent yn poenydio.
- 11 A oedd y dynion hyn mor astan,  
 A haeddu cosp am eu cyflafan?  
 Neu a ydym ni'n fwy ffrwythlon,  
 Fel derbyniem gyfryw roddion?  
 A ydym heddyw ddim yn haeddu,  
 Y cyfryw farn a hon *Yngbymru*?  
 Rhai fel moch, mawr eu rhoch, heb ddiolch am  
 Ond fel mud 'nifeiliaid adledd, [drugaredd,  
 Heb ystyried dim o'n diwedd.
- 12 Yn wir os cawsant hwy'r fath glesiau,  
 Ni gawn drymmach wialennodiau,  
 (Neu edifeirwch) am ein brynti,  
**C**an's yn erbyn grym goleuni,  
 Mae pob graddau (yma *Yngbymru*)  
 Yn rhysygus yn troseddu!  
 Mae'n ein tir, Efengyl wir, na'n fonwyd i'r Indiaid:  
 Och! péchu yngwydd yr haul a'r lleuad!  
 Duw ddansono in' ddiwygiad.
- 13 Oni fedrwn edifaru,  
 Wele farn ar fedr *Cymru*:  
 Hawdd y dichon Duw'n distrywio;  
 Gollwng gwylliaid i'n yspeilio;  
 Symmud ein canhwyll-bren ymaith,  
 Herwydd ein pechodau diffaith.  
 Meddwi fy' tyngu'n hy, digwily' godinebu!  
 Torri'r sabbath! a gorthrymmu!  
 Offrymmu eu hun i uffern obry!
- 14 Fe fydd *Sodom a Gomorra*,  
 A *Zaboom* ynghyd âg *Adma*,

Yn nydd y farn yn dyfion ffyrnig,  
 Can's ni chasant hwy'r fath gynnyg,  
 Ag sydd gennym ni *Yngbymrū*;  
 Cael 'r Efengyl i'n hyfforddi!  
 Yn y modd hwn, ar g'odd, y trefnodd Duw tirion,  
 I'n fwynhau rhyw freintiau mawrion,  
 A chael gwrando gwir athrawion.

15 Mae ffieidd-dra y *Sodomiaid*,  
 'Nawr ymhllith y Protestaniaid,  
 Ac mae gwryw-gydwyr aplan,  
 'N rhodio meddant 'nawr ym *Mrydain*;  
 'R oedd ein cyfraith gynt yn crogi,  
 Pawb a arferau y fath frynti:  
 Ond yn awr, *Brydain* fawr, dirfawr dirywiad!  
 Oddef feiau cyn atgased,  
 Ag a wneir ymhllith yr *Indiaid*.

16 Esmwythach fydd i *Tyrus* hefyd,  
 Ac i *Sidon* hen butteinllyd,  
 Nag i ni yn y dydd hwnnw,  
 Diffrywyth, ddwywaith y'm yn feirw!  
 Fel *Capernaum* anrheddeddwyd,  
 C'uwhch a'r nefoedd y'n dyrchafwyd:  
 Ond yn awr, tynnir 'lawr hyd uffern fawrobry,  
 Diau'n ddwysach cawn ein cospi,  
 Am ein camwedd nâ'r rhai hynny.

17 Yr y'm ni *Ymbrydain* fawr yr'wan,  
 Wedi'n cae i mewn fel gwinllan;  
 Oni ddygwn iddo ffrwythydd,  
 Diau digia y Gwinllanydd!  
 Fe dynn ymaith ein holl gaeau;  
 Fe chwilfriwa ein rhagfuriau;  
 Badd o'r coed, yn ddioed, sydd yn d'od oddi allan!  
 Gwae ni golli'r wywlan winllan,  
 Am bleserau breulyd aplan.

18 Nid oes lun wrth y newyddion,  
 'R y'm ni'n glywed a'm fon'ddigion,  
 Nad oes uwch ein pennau wialen,  
 Gaiff yr ynsfyd wrth ej gefen!

Ni chyfrifant hwy'n anwired,  
 Newid, neu droi heibio eu gwragedd,  
 Llythyr geir, ysgar wneir, am yr aur melyn :  
 Hynny, ysoweth, sy'n gyffredin,  
 Trinwyr cyfraith y'nt mor gethin !

- 18 Tebyg iawn ydyw'r oes yma,  
 Pr rhai gynt yn nyddiau Noa,  
 Ac mae gennym ni'n rhagori,  
 Rhai dihirod mewn drygioni,  
 Llawer glwth yn bwyta ac yfed,  
 'Chwanegu meddw-dod brwnt at syched ;  
 Mae Duw cu'n diodde'i ni, gym'ryd i ddigone  
 Ond gwaherddir ormod rhyfedd,  
 Gwyliwn ninnau rhag gormodedd.

### *Ar y GOLEUNI GOGLEDDOL.*

1. **Y**Mddangosodd ya y Gogledd  
 Oleuni 'mron er's trugain mlynedd,  
 Hwn ni's gwelwyd o'r dechreuaed,  
 Gan neb o'r hynaf o'n hynafiaid,  
 Ar rai prydiau mae'n ymddangos,  
 Weithiau fwy neu lai ar ryw nos ;  
 Yno mae, oll yn gwaec, dros yr holl wybren,  
 Nid golwg drift, ond golwg llawen,  
 I bawb f'o Iesu yn ei berchen.
2. Yn yr wybren fry mae'n chwarau,  
 Fel buddinoedd á'u banerau,  
 Marchog mae fel b'o buddinoedd,  
 F'ont yn cyehwyn i rhyfeloedd :  
 Rhannu mae ef ar nosweithiau,  
 Rhan i'r Gogledd, rhan i'r Dehau ;  
 Ag y mae, ef yn gwaec, fel gwaywffyn neu faethau,  
 Arwydd yw o ryw ddialau,  
 Neu ryw beth mawr sy dd'od, yn ddible.
3. Tebyg yw ei fod yn arwydd,  
 Mab y Dyn i dd'od yn ebrwydd :

Ei diwyniad ar yr wybren,  
 Sydd o'r un lliw gwyn a'r feldden ;  
 Efe ymddengys yn y cwmmwl,  
 O flaen trallod mawr a'r trwbwl,  
 Ag a ddaw, maes o wlaw, ar y ddaearon,  
 Trwy'r hwn caiff ei throi drachefn,  
 I ryw anferth dalp anniben,

- 4 Y mae llawer o wynebau,  
 Wrth edrych arno ef ar brydianau,  
 Y maent, meddau, yn gwanliwio,  
 Wrth wel'd y tanllyd byst yn fflamnio :  
 P'odd y safant y pryd hynny,  
 Pan bo'r ddaear oll yn crynu ?  
 Clywir ar g'oedd, yr udgorn floedd, yn gwahodd i  
 Ger bron Iesu gael ein barnu, [synw,  
 Ceisiwn bawb ei heddwch heddy'.

*Yr Anifeiliaid yn ochbeneidio.*

- 1 **R** Anifeiliaid sy'n och'neidio,  
 Am eu bod hwy wedi'u llwytho,  
 Hyn yw'r achos mae nhwy'n ochain,  
 Dwyn Balamiaid ar eu cefn ;  
 A phe gallent hwy lefaru,  
 Dywedent, Gwae i'r hwn sy'n gyrru :  
 Symbbau sy, o bob tu, yn braenu sy ochrau,  
 Nid o'n bai ni, ond sawl a'n piau,  
 Fod llwyth mor gethyn ar eu cefnau.
- 2 Diau 'mharchu dylai 'mherchen,  
 Am ei ddwyn ef ar fy nghefn,  
 Ond fy nhuro gaf heb gyfrif,  
 Bwgwth arnai'n greulon gleddyf;  
 A chan ruo a rhegu'n ddiglon,  
 'Bai gennyf gyllell cait i'th galon ?  
 'R anifail mud, gaiff o hyd, â dirdra ei orthrymmu,  
 A chan ei berchen † boniad boeni, † ycb bon.  
 Yntau'n gruddfan am ddydd cyfri',

*Dir*

*Dirgelwch y Cristion.*

- 1    **T**Ebyg i'm calon ddifrad ddu,  
    I'm enw hen a newydd sy.  
Does un peth newydd yn y byd,  
    Ac etto newydd y'nt i gyd.
- 2    Does yn fy nghawd di'm da'n ddilai,  
    Ond yspryd Crist o'm mewn y mae.  
'Rwy'n sanctaidd, 'rwy'n bechadur du,  
    Pechod sy'n pechu: nid myfi.
- 3    Pechu o'm bodd, o'm hanfodd 'rwyf,  
    Yn euog, a dieuog wyf.  
Y sant sancteiddiaf o na bawn,  
    Ond, bod y lleiaf boddlon iawn.
- 4    Un tlawd, cyfoethog, wyf bob awr,  
    Cardottyn, a Thywyfog mawr,  
Ymysg y gwael, 'rwy'n waela'm drych,  
    Gyd â brenhinoedd, brenin gwych.
- 5    'Rwy'n thydd, 'rwy'n rhwymyn mewn carchar  
    Dan Felldith deddf, trwy ras yn rhydd. [prudd,  
'Rwy'n gwel'd yn gyflawn gospi'm bai,  
    Ac etto'n hollol fy rhyddhau.
- 6    Fy ennill trwy fy ngholled ddaeth,  
    'Ngyflawnder trwy fy 'nhrofedd maith,  
O ryfel gwaedlyd tardd fy hedd,  
    Angau yw'm bywyd, byw yw'm bedd.
- 7    Fy nghyflawn ddamnio byth ni chaf,  
    Can's boddiodd Crist gyflawnder Naf,  
Nid nef yn gyflawn, fydd fy rhan,  
    Can's Duw'r trugaredd dwg fi'r lan.
- 8    Mae gennyf hawl i'r Gana'n dir,  
    Trwy ras a thrwy, gyflawnder gwir,  
Fy holl ymddiried yw fy Nuw,  
    Can's cyflawn a thrugarog yw.

BOOKS printed and sold by J. Ross  
Carmarthen.

Shopkeepers and Others, who buy a Quantity  
to sell again, will have a good  
Allowance made them.

- 1 A New English-Welsh DICTIONARY; containing all Words necessary for Reading an English Author, wherein not only the corresponding British is given to the English, and the various Significations properly ranged, but also every English Word is properly accented to prevent a bad Pronunciation, and the Part of Speech added to which each Word respectively belongs, with proper Authorities subjoined where necessary. The Whole carefully compiled from the best Authors in both Languages, by the Rev. W. EVANS. Price bound 5s.
- 2 A new Hebrew-English Lexicon, by the Rev. Mr. Barker. Price bound 5s.
- 3 Esponiad ar Dddammeg y Phariseaid a'r Publican na bu argraffedig erioed o'r blaen yn Gymraeg, 1s.
- 4 Taith y Pererin, 9c.
- 5 Tyred a Groesaw-at Iesu Crist, 9c.
- 6 Aberth Cymmeradwy, 6c.
- 7 Ffigys-bren anffrwythlon, 4c.
- 8 Myfyrdodau ar y pedwar Peth diweddaf, 3c.
- 9 Golwg ferr ar yr Hanes ysgrythurol, gan Dr. Watts, 2s.
- 10 Salman Dafydd, gwedi ei rhwymo, 1s. 6c.
- 11 Hymau, gwedi ei rhwymo, 1s. 6c.
- 12 Capiadau dwyfol i Blant, 3c.
- 13 Pigion Hymnau o Waith yr Awdwyr hynottaf yn ym oes brefenol. Y trydydd Argraffiad, 9c.
- 14 Catecism ysgrythurol, gan y Parch. Mr. Henry, 1s.
- 15 Deddfau Crist'nogol, neu didywyl Air Duw, gan y Parch. Mr. John Evans, 2s. 6c.
- 16 Hunan-Adnabyddiaeth, gan y Parch. Mr. Mason, 1s.
- 17 Cynghorion Tad i'w Fab, 3c.
- 18 Oes Lyfr, gan T. Williams o'r Mynydd-bach, 6c.
- 19 Gweledigaeth y Bardd Cwsg, 6c.
- 20 Act o barliament am dorri Coed, 3c.
- 21 CANWYLL y CYMRY; sef, Gwaith y Parch. M

BOOKS printed and sold by J. Ross.

- Rees Prichard, gynt Ficer Llanyrddydysri. At ba un  
y chwanegwyd amryw Ganiadau o waith yr un  
Awdwr, a dynnwyd allan o Llofion y Parch. G. Jones,  
Llanddowror. Ac hefyd y mae Rhagymadrodd  
rhagorol y Parch. Mr. Stephen Hughes, 2s. 6c.
- 22 Geir Lyfr ysgrythurol, yn dangos Arwyddocedd y  
Rhan fwyaf o Eiriau ac Ymadroddion caled, a gyn-  
hwysir yn yr Hen Destament a'r Newydd. Wedi ei  
dalfyrru allan o Eir-lyfr Mr. Wilson, 1s. 6c.
- 23 Gogoneddus ddirgelwch Trugaredd Duw; neu werth-  
fawr Feddyginaeth i Encidiau lluddiedig, gan y  
Parch. I. Bisco, 1s.
- 24 The Advantages and Disadvantages of the Marriage  
state, 2d.
- 25 The Road to Learning; or Reading made pleasant,  
with Cuts, id.
- 26 Hanes y Bedyddwyr, wedi ei wynio, 2s. 6c.
- 27 Fisher's Young Man's Best Companion, 2s. 6d.
- 28 Milton's Paradise Lost, 2s. 6d.
- 29 Young's Night Thoughts, 2s. 6d.
- 30 Young's Works, 6 Vol. in 3, 9s.
- 31 Hervey's Meditations, 2 Vol. in one, 3s.
- 32 Hervey's Theron and Aspasio, 3 Vol. in 2, 6s.
- 33 Doddridge's Family Expositor 6 Vols, 8vo 1l. 16s.
- 34 Josephus, 6 Vols, 18s.
- 35 Thomson's Seasons, 2s. 6d.
- 36 Thomson's Works, 4 Vols, 8s.
- 37 Hill's Arithmetic, 2s.
- 38 Gay's Fables, 1s. 6d.
- 39 Watts's Psalms, (a very neat Edition) 2s.
- 40 Death of Abel, (a neat Edition) 2s. 6d.
- 41 Wilson's Navigation, with all the necessary Tables,  
7s. 6d.
- 42 Testament Newydd ein Harglwydd IESU GRIST, 2s.
- 43 Pope's Homer's Iliad, 4s.
- 44 Montesquieu's Causes of the Fall of the Roman Em-  
pire, 3s.
- 45 T. Livii quinque Piores, 2s. 6d.
- 46 Spectator, with the Mottoes translated, 8 Vols, 16s.
- 47 Henry's Commentary on the Bible, 6 Vols. Folio,  
neatly Bound, 5l. 5s.



